
# Eglwys Sant Gwyddelan

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad hwyl *Brecwast yng nghwmni Siôn Corn* ym mis Rhagfyr, mae aelodau Eglwys Sant Gwyddelan yn parhau i fynd ati i gynnal ***Caffi Plant*** yn y Pafiliwn yn rheolaidd. Bu digwyddiadau ers y cyntaf, ym mis Ionawr a Chwefror a dyma ddyddiad digwyddiad arall i chi ei ysgrifennu yn eich dyddiadur:

**Dydd Sadwrn Ebrill y 23ain 10.00yb tan 11.30yb**
**– thema, *Sant Gwyddelan a Dreigiau***

Byddwn yn cynnal gweithdai crefftau, chwarae gemau a chynnig cyfle i blant gymryd rhan mewn drama, gwneud cerddoriaeth, gwisgo gwisg ffansi a darllen straeon. Mae'r digwyddiad am ddim ond mae croeso i chi roi cyfraniad. I wybod mwy, cysylltwch â Lynette ar **01690750032** neu Caroline ar **750012**



Ar fore Llun y Pasg byddwn yn cynnal **Helfa Wyau Pasg** i blant yng ngerddi'r Eglwys a chystadleuaeth Ŵy Pasg yn yr Eglwys. Bydd cystadleuaeth creu Bonet Pasg yn y prynhawn a chyfle i ennill gwobrau! Bydd yr Eglwys ar agor o 10.00yb tan 4.00yp a bydd paned ar gael trwy'r dydd.

**Cymun y Pasg / Gwasanaeth y Cymun am 9.30yb ar Sul y Pasg.**

Hefyd, rhybudd ymlaen llaw y bydd Gŵyl Flodau yn yr Eglwys ar benwythnos Awst yr 21ain. Bydd yn gyfle i fudiadau lleol ddathlu Diwrnod Sant Gwyddelan gyda ni gan fwynhau detholiad o drefniadau blodau arbennig.

## Mae croeso i bawb i'r holl ddigwyddiadau hyn.

## Cymdeithas Garddwriaeth Meirionnydd yn cyflwyno Medal



Bu i **Mrs. Nellie W Hughes** dderbyn medal gan Gymdeithas Garddwriaeth Meirionnydd am ei gwasanaeth ar bwyllgor Sioe Dolwyddelan am gyfnod o 29 mlynedd. Derbyniodd Mrs. Nellie W Hughes y fedal mewn cinio yn Ninas Mawddwy.

Bu i Eurwyn Roberts, Ysgrifennydd y Sioe, gyflwyno Nellie gerbron gweddill yr aelodau ac fe gyflwynodd Llywydd y Gymdeithas, Mrs Ann Griffith, Y Bala y fedal iddi.

**Llongyfarchiadau mawr Nellie.**